OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 1301 (Cy. 108)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cilfannau tua'r Gorllewin a thua'r Dwyrain, Man i'r Gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin) (Mannau Gwahardd Mynediad) 2015

Gwnaed	*14 Ebrill 2015*
Yn dod i rym	*16 Ebrill 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A477 (Sanclêr i Ddoc Penfro) ("y gefnffordd") drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori a Phrif Swyddog Heddlu Dyfed Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ebrill 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cilfannau tua'r Gorllewin a thua'r Dwyrain, Man i'r Gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin) (Mannau Gwahardd Mynediad) 2015.

Gwaharddiad

2. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael mynediad i gilfannau'r gefnffordd yn y mannau a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig 14 Ebrill 2015

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraff 61 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

1) Y man ymadael â chilfan tua'r gorllewin y gefnffordd ym mhen gorllewinol y gilfan, 2.0 cilometr i'r gorllewin o gyffordd y gefnffordd a'r C3236, i'r gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin.

2) Y man ymadael â chilfan tua'r dwyrain y gefnffordd ym mhen dwyreiniol y gilfan, 2.2 cilometr i'r gorllewin o gyffordd y gefnffordd a'r C3236, i'r gorllewin o Landdowror, Sir Gaerfyrddin.